



(llun: [www.dyfibiosphere.wales](http://www.dyfibiosphere.wales))

**Canlyniadau a Chanfyddiadau**  
**Arolwg Cymuned Aberdyfi 2021:**

Hydref 2021

Resources for Change Ltd  
Cyfarwyddwyr: D Jones, M King, N Smith, S Sullivan,  
Rhif TAW: 996 4504 72. Rhif Cwmni 7310220.  
Cyfeiriad Cofrestredig: Cwrt Isaf Farmhouse, Llangatwg, Crucywel, Powys NP8 1PH.

Resources  
FOR CHANGE

Deio Jones: R4C

CYFLWYNIAD .....	ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.
<i>Methodoleg</i> .....	2
CRYNODEB GWEITHREDOL .....	ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.
ARCHWILIO'R DATA.....	4
<i>Yr Ymatebwyr: Pwy gafodd ddweud eu dweud?</i> .....	4
<i>Canfyddiadau</i> .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
<i>Blaenoriaethau</i> .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
<i>Yr Angen: Cyfleusterau Lleol</i> .....	6
<i>Yr Angen: Gwasanaethau a Gweithgareddau Lleol</i> .....	9
<i>Beth sy'n eithrio pobl: Rhwystrau i Gyfranogi</i> .....	11
<i>Effaith Covid</i> .....	11
<i>Yr Economi a Swyddi</i> .....	12
<i>Pobl ifanc</i> .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
<i>Yr Amgylchedd</i> .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
<i>Tai</i> .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
PARTNERIAETH HWYLUSWYR TAI GWLEDIG GOGLEDD-ORLLEWIN CYMRU: ADRODDIAD AROLWG ANGHENION TAI.....	15
CAMAU POSIBL NESAF: SUT GALLWCH CHI WEITHREDU AR Y CANFYDDIADAU HYN .....	18
CASGLIADAU .....	18

**Nodyn:** Mae canfyddiadau'r arolwg yn adlewyrchu meddyliau a barn yr ymatebwyr, nad ydynt efallai bob amser yn ffeithiol gywir. Fodd bynnag, gall achosion o'r fath roi mewnwediad gwerthfawr, e.e., os yw nifer o breswylwyr yn nodi'r angen am ddiffibriliwr yn y pentref er bod sawl un wedi'i osod, mae'n tynnu sylw at ddiffyg gwybodaeth leol am yr asedau cyfredol hyn sydd ar gael, a allai achub bywyd.

Yn gynnar yn 2021, daeth grŵp o bobl leol ynghyd i ffurfio 'Grŵp Anghenion Cymunedol Aberdyfi,' gyda'r bwriad o nodi anghenion newidiol y gymuned yn sgil pandemig Covid-19.

Comisiynodd y grŵp 'Resources for Change' (R4C) i helpu i ddatblygu arolwg cychwynol ledled y gymuned i alluogi pobl leol i ddweud eu dweud. I adeiladu trosolwg cynrychioliadol o'r gymuned a nodi ffyrdd o wella pethau i breswylwyr lleol. Buom yn cydweithio â 'Hwyluswyr Tai Gwledig Gogledd-orllewin Cymru' i'n galluogi i ymgysylltu â'r gymuned wrth gadw at reoliadau Covid-19, a gwnaethant gynhyrchu '*Arolwg Anghenion Tai Lleol*' ar wahân, y dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r adroddiad hwn. Mae eu crynodebau a'u casgliadau hefyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn i ddarparu trosolwg llawn o'r sefyllfa.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r arolwg cymunedol a bydd yn darparu'r dystiolaeth gychwynol ar gyfer trafodaethau a datblygiadau pellach. Gallai'r rhain gynnwys datblygu prosiectau unigol a cheisiadau cyllido cysylltiedig, neu gallent gael eu datblygu'n Gynllun Lle Cymuned mwy cynhwysfawr. Bydd y canlyniadau hefyd yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdodau Lleol i ddarparu tystiolaeth o angen lleol am y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) diweddaraf.

### METHODOLEG

Sefydlwyd arolwg dwyieithog ar 'Microsoft Forms,' a dosbarthwyd y ddolen i bob cartref drwy'r post gan dîm 'Hwyluswyr Tai Gwledig Gogledd-orllewin Cymru'. Cafodd ei rannu a'i hyrwyddo hefyd trwy'r rhwydweithiau o bartneriaid a rhanddeiliaid a nodwyd, a'i rannu'n eang ar gyfryngau cymdeithasol. Roedd yn agored am gyfnod cychwynol o dair wythnos yng Ngorffennaf-Awst 2021, ac yn ystod yr amser hwnnw ymatebodd 234 o unigolion.

Ymgynghorwyd ag uwch swyddogion yn adran Gynllunio 'Parc Cenedlaethol Eryri' ac adran dai Cyngor Gwynedd i sicrhau bod y wybodaeth a gasglwyd yn berthnasol i ddatblygiad y CDLI newydd.

Mae canfyddiad cyffredinol bod Aberdyfi yn lle da i fyw i bobl ifanc, teuluoedd, ac unigolion sydd wedi ymddeol [er na chasglwyd barn wirioneddol pobl ifanc o dan 25 oed]. Fodd bynnag, heblaw am y rhai sy'n gallu gweithio o bell gartref, nid oedd yn cael ei ystyried yn lle da i ddod o hyd i waith nac i deithio i weithio yn rhywle arall. Mae diffyg cyfleoedd cyflogaeth amrywiol a dibyniaeth ar waith tymhorol â thâl isel yn yr economi ymwelwyr yn un o'r prif faterion sy'n wynebu'r gymuned, ac mae gwell cyfleoedd hyfforddi, llefydd gwaith, ac economi fwy amrywiol yn cael eu hystyried fel camau i unioni hyn.

Pan ofynnwyd iddynt flaenoriaethu o gyfres o opsiynau a osodwyd ymlaen llaw, roedd adborth ar y cyd gan ymatebwyr wedi rhoi gwella cyfleusterau lleol ar frig eu rhestr, ac yna gwella gwasanaethau/gweithgareddau cymunedol, annog cyfleoedd cyflogaeth newydd, darparu tai cynaliadwy, darparu tai lleol, a gwarchod ein hamgylchedd naturiol.

Mae'n amlwg bod y camau ymarferol â blaenoriaeth uchel i wella cyfleusterau a gwasanaethau yn ymateb i'r materion dybryd o ddydd i ddydd a nodir yn yr arolwg. Ond mae gweithredoedd strategol a pholisïau mwy hirdymor yn is i lawr y rhestr. Daw'r amgylchedd yn olaf, er iddo ymddangos yn ddiweddarach mai hwn oedd y mater a unodd fwyafrif llethol yr ymatebwyr yn fwy nag unrhyw un arall yn eu gwerthfawrogiad o'r budd y mae'n ei gynnig iddynt, a'u hawydd i'w warchod trwy addysg, gweithredu a deddfwriaeth.

Nid yw'n syndod bod cyfleusterau cymunedol yn cael eu hystyried yn allweddol i ddarparu gwasanaethau a gweithgareddau lleol. Maent hefyd yn ganolog i hwyluso rhyngweithio cymdeithasol a dod â phobl ynghyd. Mae'r awydd i amddiffyn, cynnal a gwella cyfleusterau a gwasanaethau/gweithgareddau cymunedol yn gryf yn gyffredinol. Mae yna lawer o awgrymiadau a chynigion penodol hefyd ar sut y gellid cyflawni hyn, a sut i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth gyfredol er budd y gymuned.

Mae yna themâu cyffredin hefyd yn dod i'r amlwg o'r rhwystrau i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Diffyg amser ac ymrwymadau gwaith yw'r rhwystrau mwyaf cyffredin. *[Diffyg diddordeb yn y gweithgaredd a gynigir yw'r rhwystr mwyaf cyffredin a nodwyd, ond mae hyn yn cynnwys llawer nad oedd â diddordeb mewn rhai gweithgareddau ond a oedd wedi mynd ati i gyfranogi mewn eraill, sy'n creu darlun niwlog].* Roedd diffyg gwybodaeth a hysbysebu gweithgareddau a digwyddiadau hefyd yn thema amlwg.

Tynnodd iechyd a symudedd gwael sylw at faterion hygrychedd cynhwysol fel mynediad i gadeiriau olwyn a gwasanaethau ar gyfer unigolion trwm eu clyw, ond cododd hefyd y potensial ar gyfer cynllun trafndiaeth gymunedol. Nodwyd hefyd bod diffyg parcio yn cadw pobl draw, yn enwedig yn ystod y tymor twristiaeth prysur. Yn olaf, codwyd materion yn ymwneud ag aelodaeth a'r hyn a deimlwyd a oedd yn ddetholusrwydd mewn rhai clybiau, y credir eu bod yn eithrio llawer o breswylwyr lleol.

Teimlir bod pandemig Covid-19 wedi tynnu sylw at yr angen am wasanaethau cymunedol lleol, yn enwedig yn ymwneud ag iechyd a lles. Mae o bosibl wedi newid y ffordd mae pobl yn cymdeithasu fel grwpiau, ac wedi dwysáu materion yn ymwneud ag unigrwydd ac arwahanrwydd. Gallai hefyd newid arferion ac ymddygiad a allai effeithio ar yr economi ac anghenion y gymuned. Gwelir hefyd ei fod wedi dod â'r gorau allan o bobl ac wedi meithrin perthnasoedd newydd ac ysbryd cymunedol cryfach, y gellir adeiladu arnynt wrth symud ymlaen.

Yn olaf, ystyrir tai fel mater pwysig, ac mae'r data o'r 'Arolwg Anghenion Tai' yn atgyfnerthu hyn drwy nodi bod:

- 62.3% o aelwydydd lleol yn cael eu prisio allan o'r farchnad leol
- Nid oes unrhyw lety rhentu preifat ar gael ar hyn o bryd yn Aberdyfi.
- Mae 54% o'r holl eiddo yn y pentref yn ail gartrefi, tai gwyliau ar osod, neu'n wag.

Yn gyffredinol, ystyrir bod tai yn anfforddiadwy i bobl leol, ac mae effaith ail gartrefi ar y gymuned wedi pegynnu barn. Adlewyrchir hyn gan adrannau eraill lle

ystyriar bod twristiaeth ac ymwelwyr yn hanfodol i'r economi leol, wrth roi pwysau sylweddol ar wasanaethau lleol a'r amgylchedd ar yr un pryd.


Fodd bynnag, mae cefnogaeth ysgubol i fesurau a fyddai'n hyrwyddo tai lleol, tai fforddiadwy, a chyfyngu ar ail gartrefi.

## ARCHWILIO'R DATA

### YR YMATEBWYR: PWY GAFODD DDWEUD EU DWEUD?

Mae angen dehongli'r canlyniadau yng nghyd-destun y rhai a gyfrannodd, ac mae angen i ni gofio effaith colli rhai grwpiau neu ddemograffeg.


Ymatebodd cyfanswm o 234 unigolyn i'r arolwg. Cafwyd dosbarthiad eithaf cyfartal o ymatebion gan rai o'r grwpiau oedran 25-49, 50-64 a 65+, ond diffyg ymgysylltiad siomedig gan bobl ifanc o dan 25 oed.



Roedd dros 70% o'r ymatebwyr yn breswylwyr parhaol, 56% yn Aberdyfi a 14% arall yn byw o fewn 5 milltir. Roedd ychydig llai na 20% yn berchnogion ail gartref yn byw yn yr ardal am ran o'r flwyddyn. Roedd y 10% arall yn gymysgedd o

ymwelwyr, pobl yn teithio i mewn i weithio neu ar gyfer gweithgareddau, a'r rheini â chysylltiadau hanesyddol a theuluol.

Roedd ychydig dros hanner (52.1%) yr ymatebwyr yn ddi-Gymraeg. Dim ond 9.8% o ymatebwyr oedd yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, gydag 11.1% arall yn ei nodi fel eu hail iaith. Nododd dros



chwarter (26.9%) eu bod yn dysgu'r iaith ar hyn o bryd, a nododd 89 unigolyn y byddai ganddynt ddi-ddordeb mewn Gwersi Cymraeg.

## CANFYDDIADAU

Fe wnaethom holi ymatebwyr am eu barn ar y datganiadau canlynol am Aberdyfi:

“Rydw i'n meddwl bod Aberdyfi yn lle da i...”

...blant/pobl ifanc fyw


...bobl fagu teulu

...bobl ddod o hyd i waith

...bobl weithio gartref

...bobl deithio i weithio yn rhywle arall

...fyw ar ôl ymddeol



Gofynnwyd i ymatebwyr ddewis ymateb yn amrywio o 'anghytuno'n gryf' (coch tywyll) i 'gytuno'n gryf' (glas tywyll), a dangosir y canlyniadau yn y siart uchod. Gallwn weld patrwm eithaf clir, lle mae'r mwyafrif yn credu bod Aberdyfi yn lle da i blant a phobl ifanc fyw, i fagu teuluoedd, gweithio gartref ac ymddeol. Fodd bynnag, mae barn negyddol iawn am Aberdyfi fel lle i naill ai ddod o hyd i waith neu deithio i weithio mewn llefydd eraill.

Rhaid i ni gofio hefyd nad yw'r canlyniadau hyn, fel y soniwyd eisoes, yn adlewyrchu canfyddiadau pobl o dan 25 oed yn gywir.


## BLAENORIAETHAU

Gofynasom i'r ymatebwyr raddio o 1 (pwysicaf) i 6 (lleiaf pwysig), pa un o'r chwe ymyrraeth arfaethedig y credant fyddai'n gwella'r gymuned ac a oedd bwysicaf iddynt. Roedd y canlyniadau fel a ganlyn

Safle	Ymyriadau
1	Gwella'r adeiladau a'r cyfleusterau ym mherchnogaeth y gymuned yn Aberdyfi
2	Darparu gweithgareddau a gwasanaethau cymunedol newydd a/neu well i breswylwyr e.e. gweithgareddau cymdeithasol i bobl leol, hyfforddiant, celf a chreffft, chwaraeon, clwb ieuencid ac ati
3	Annog cyfleoedd gwaith a chyflogaeth lleol newydd
4	Darparu mwy o dai fforddiadwy
5	Darparu mwy o dai i bobl leol
6	Gwarchod a gwella ein hamgylchedd naturiol

Os edrychwn yn agosach ar y dadansoddiad o sut gwnaeth unigolion raddio pob opsiwn (isod), gwelwn fod bron i ddwywaith cymaint o bobl wedi dewis 'gwella cyfleusterau cymunedol...' (1) fel opsiwn cyntaf o'i gymharu ag unrhyw un o'r lleill, tra bod 'gwella gweithgareddau a gwasanaethau' (2) yn uchel ar sail ail a thrydydd dewis pobl.

Roedd 'Annog cyfleoedd gwaith a chyflogaeth newydd' (3) yn drydydd, er bod llai o bobl yn credu ei fod yn flaenoriaeth na'r ddwy ymyrraeth tai. Mae hyn oherwydd bod bron i hanner yr ymatebwyr yn ei ystyried yn 3<sup>edd</sup> neu'n 4<sup>edd</sup> flaenoriaeth, a llai na 10% fel yr un isaf.




Mae'n ddiddorol nodi mai 'darparu mwy o dai fforddiadwy' (4) oedd yr opsiwn a oedd yn rhannu barn fwyaf, gyda safbwyntiau cryf ar ddau begwn y sbectrwm. Ychydig o syndod, o ystyried bod 70% o'r ymatebwyr yn breswylwyr lleol a'r ffrwydrad ledled y wlad yn y farchnad dai, oed mai 5<sup>ed</sup> yn unig oedd 'darparu mwy o dai i bobl leol' (5).

Mae cafeat yma, yn yr ystyr bod gan wella cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol y potensial i wella'r gymuned i bawb, ac nad yw darparu tai fforddiadwy/lleol o fudd i'r rhai sydd eisoes yn berchnogion tai. Gallai hyn fod wedi dylanwadu ar ddewisiadau pobl. Fodd bynnag, nid yw hyn yn egluro pam mai 'Gwarchod a Rheoli ein hamgylchedd naturiol' (6) oedd y flaenoriaeth isaf yn gyffredinol.

Yn olaf, mae'n bwysig cofio bod yr opsiynau hyn, yn seiliedig ar ymyraethau posibl a nodwyd gan grŵp o bobl leol, wedi'u graddio mewn perthynas â'i gilydd. Nid yw hyn i ddweud bod y rhai sydd yn y safleoedd isaf yn amherthnasol. Roedd hwn yn ymarfer blaenoriaethu a oedd yn edrych ar chwe ymyrraeth bosibl, a dim ond dangos ei bod yn cael ei chyfrif yn llai pwysig neu â llai o frys na'r lleill y mae safle isel.

## YR ANGEN: CYFLEUSTERAU LLEOL

I gael syniad o ba gyfleusterau oedd yn cael eu defnyddio gan y gymuned, gwnaethom ofyn i'r ymatebwyr pa rai ohonyn nhw oedden nhw neu eu teuluoedd wedi ymweld â nhw yn ystod y 12 mis cyn Cyfnod Clo Covid-19.




\*Nodyn: Fe wnaethom anghofio rhoi'r Clwb Golff ar y rhestr – ac mae'r sylwadau am hyn yn profi ei fod yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd!

Mae'r cyfleusterau hyn yn gwasanaethu gwahanol grwpiau a chynulleidfaoedd. Mae rhai ar gyfer gweithgaredd penodol (e.e. cae pêl-droed), mae eraill fel Neuadd Aberdyfi yn cynnal ystod eang o weithgareddau a gwasanaethau, tra bod parciau a mannau agored yn hygyrch i bawb. Fodd bynnag, mae'n rhoi syniad i ni o'r cyfleusterau sy'n darparu gwasanaethau neu fuddion i gyfran fawr o'r gymuned.

Mae'r Clwb Hwyllo, Clwb Golff a Maes Hamdden (Bowls/Tennis/Croce/Pytio), a 'chlybiau gweithgareddau/chwaraeon' eraill yn chwarae rhan allweddol fel canolbwyntiau cymdeithasol yn ogystal â darparwyr gweithgareddau, gyda llawer yn nodi eu bod yn elwa o'r cyfleusterau er gwaethaf peidio â chymryd rhan yn y gweithgareddau craidd. Mae'r un peth yn wir am Neuadd Dyfi a'r Sefydliad.

## ASED NEWYDD YM MHERCHNOGAETH Y GYMUNED?


Fe wnaethom holi cwestiwn Oes / Nag oes syml i fesur a oedd awydd lleol i fuddsoddi mewn cyfranddaliadau mewn ased ym mherchnogaeth y gymuned pe bai'r cyfle'n codi. Atebodd dwy ran o dair o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn gadarnhaol, sy'n awgrymu y byddai menter o'r fath yn cael cefnogaeth.



## TRAFNIDIAETH GYMUNEDOL GYNALIADWY

Gofynnwyd hefyd a oedd ymatebwyr yn credu bod angen gwell cysylltiadau trafnidiaeth gynaliadwy yn y pentref, ac os felly, pa ymyraethau a fyddai o fudd i'r gymuned.

Lonydd beicio newydd oedd y dewis mwyaf poblogaidd, gan adlewyrchu canfyddiadau blaenorol. Roedd cefnogaeth eang hefyd i lwybrau cerddwyr newydd/gwell (neu lwybrau cerdded), ac roedd llawer o'r farn bod bws cymunedol hefyd yn ateb posibl.



## BETH ELLID EI WNEUD I WELLA CYFLEUSTERAU PRESENNOL?

Cafwyd amrywiaeth gyfoethog o awgrymiadau a sylwadau am beth ellid / mae angen ei wneud i wella'r cyfleusterau presennol yn Aberdyfi, ac i wneud y gorau o'r hyn sydd gennym.

**Gwybodaeth:** Yr awgrym mwyaf cyffredin oedd y dylid cael canolbwynt gwybodaeth canolog / siop un stop i bobl leol [yn bennaf] gael gwybod beth sy'n digwydd mewn gwahanol glybiau a chyfleusterau, a sut gallant gymryd rhan. Roedd grŵp neu dudalen ar-lein ar gyfryngau cymdeithasol, neu hysbysfwrdd/canolbwynt ffisegol yng nghanol y pentref yn awgrymiadau cyson.

**Gwella Cyfleusterau Presennol:** Roedd galwadau penodol dro ar ôl tro am wella cyfleusterau presennol:

- Neuadd Aberdyfi: Gosod seddi y gellir eu tynnu'n ôl i gynyddu a gwneud y gorau o'r gofod sydd ar gael yn y brif neuadd, ac agor cyfleoedd newydd.
- Y Sefydliad Llenyddol: Mae canfyddiad bod yr ased yn cael ei danddefnyddio ac y gallai elwa o foderneiddio i wella ansawdd ac amrywiaeth y cynnig yno a'i wneud yn fwy perthnasol i anghenion cyfredol.
- Clwb Bowls a Maes Hamdden Aberdyfi: Gwelliannau i arwynebau chwarae'r lawnt fowlio, cyrtiau tenis a lawnt croce, ynghyd â chyfleusterau cysylltiedig. Roedd barn gref hefyd fod y Maes Hamdden yn ased sy'n cael ei danddefnyddio'n fawr, ac nad oedd ymwelwyr a phobl leol fel ei gilydd yn ymwybodol o'i werth.
- Clwb Hwyllo: Cafwyd sylwadau am gyflwr y llithrfa a chyfleusterau lansio cychod.

**Cyfranogiad Lleol:** Roedd thema gyson (yn cynnwys gan aelodau) y dylai llawer o'r clybiau lleol fod yn fwy croesawgar, a gwneud mwy o ymdrech i ymgysylltu â phobl leol. Cyfeiriodd y mwyafrif o'r sylwadau at y Clwb Hwyllo o ystyried ei leoliad amlwg, ei gyfleusterau ar y glannau, a'i dueddiad i gael ei ystyried yn lle i 'ymwelwyr.' Ond roedd y neges yn debyg i sefydliadau eraill hefyd.

**Gwell Defnydd o Fannau Agored:** Nododd ymatebwyr gyfle i ddatblygu rhai o fannau agored Aberdyfi, yn benodol y grŵn a'r glannau. Roedd y cynigion yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gweithgareddau hamdden a bwyta awyr agored.

**Uwchraddio Ardal Chwarae'r Plant:** Cafwyd nifer o sylwadau ar yr angen i wella ac uwchraddio ardal chwarae'r plant i ddarparu profiad gwell i bobl ifanc.

**Hygyrchedd:** Gwella hygyrchedd i bawb ar draws yr holl gyfleusterau ac o amgylch y pentref yn gyffredinol.

**Parcio:** Roedd galwadau dro ar ôl tro am gynyddu'r ddarpariaeth barcio yn y pentref, yn enwedig yn ystod cyfnodau prysur, a gwneud ymdrech i atal ymwelwyr rhag parcio mewn llefydd amhriodol ac ar fannau gwyrdd. Roedd galwadau hefyd am barcio preswyl pwrpasol y tu allan i gartrefi pobl.

**Toiledau Cyhoeddus:** Wedi'u cadw'n lân, eu cynnal a'u cadw'n dda, yn fodern, ac yn addas at y diben yn y gyrchfan boblogaidd hon ar gyfer pobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd.

**Cynnal a Chadw Parhaus:** Nodwyd bod gwaith da eisoes yn cael ei wneud i gynnal a chadw llawer o'r cyfleusterau hyn, ond dylid canolbwyntio ar gynnal a gwella'r cyfleusterau hyn wrth symud ymlaen i'w hatal rhag dirywio. Cafwyd ychydig o sylwadau am y pentref yn dechrau edrych yn flinedig ac wedi dadfeilio yn ystod y pandemig.

**Biniau a Baw Cŵn:** Galwadau am fwy o finiau gwastraff a biniau baw cŵn ac iddynt gael eu gwagio yn amlach.

Arall	
Safle Seindorf (ar y grŵn?)	Gwell trafndiaeth leol a chyhoeddus
Campfa awyr agored	Gwelliannau i ymwelwyr a chwaraeon yn y Cae Pêl-droed
Trwsio pont y rheilffordd rhwng Outward Bound ac Ynys Picnic	Darpariaeth Band Eang Ffeibr

## CYFLEUSTERAU COLL

Roedd yna hefyd ystod eang o awgrymiadau ar gyfer cyfleusterau ychwanegol sydd ddim yn bodoli yn y pentref ar hyn o bryd. Amlygir y cynigion a gododd dro ar ôl tro, tra bod y mwyafrif o'r lleill yn cael eu nodi o dan 'arall.' Nid yw hyn o reidrwydd yn arwydd o'r angen na'r galw, dim ond adlewyrchiad o adborth yr arolwg. Dylid eu trin fel arwydd o flaenoriaethau cymunedol, a man cychwyn ar gyfer sgwrs fanylach a modd o nodi angen.

**Llwybr Beicio:** Llwybr beicio yn cysylltu Aberdyfi a Thywyn oedd y cynnig mwyaf poblogaidd yma, tra bod llwybrau beicio mwy diogel yn y pentref ei hun hefyd wedi'u cynnig.

**Gwell Cyfleusterau Meddygol:** Soniodd ymatebwyr amrywiol am feddygfa, deintydd, lloches gofal dydd a llety gwarchod i alluogi pobl i gael gofal yn y gymuned ac osgoi teithio i Dywyn i gael gwasanaethau. Ar wahân, roedd galw am **Ddiffibriliwr** yn y pentref.

**Cyfleusterau Ieuentid:** Roedd galw am gyfleusterau ieuentid, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau. Fodd bynnag, ar wahân i awgrymiadau fel parc sglefrio, roedd diffyg cynigion pendant, a allai o bosibl adlewyrchu'r diffyg ymgysylltiad gan bobl ifanc â'r arolwg a/neu ddiffyg preswylwyr ifanc.

**Canolfan Ailgylchu:** Canolfan ailgylchu gymunedol gyda chyfleusterau ar gyfer gwastraff cyffredinol a gardd / gwyrdd, gan fod y cyfleuster agosaf ym Machynlleth ar hyn o bryd (\*yn ôl yr adborth).

**Parcio:** Ailadroddwyd o'r adran flaenorol, ond mae galw am gyfleusterau parcio ychwanegol ar gyfer ymwelwyr a phreswylwyr lleol.

**Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan:** Pwyntiau gwefru yn agos at gyfleusterau ac amwynderau i alluogi pobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd i wefru eu cerbydau, a fydd yn gyfleuster hanfodol wrth i geir disel/petrol ddod i ben yn raddol dros y degawd nesaf.

**Mesurau Gostegu Traffig:** Terfynau cyflymder newydd a mesurau gostegu traffig yn y pentref ac wrth ddynesu ato.

**Stryd Fawr Amrywiol:** Sylw cyffredin yw nad oes gan y pentref amrywiaeth o fwytaï a chaffis. Yn yr un modd, mae nifer o ymatebwyr yn galw am siopau annibynnol fel pobyddion, siop bysgod, siop lyfrau, siop gacennau ac ati. Mae'r rhain yn ysbryd darparu ar gyfer preswylwyr lleol, ond heb os, byddent hefyd yn apelio at ymwelwyr.

**Arall:** Soniwyd am nifer o wasanaethau lleol gan gwpl o ymatebwyr gan gynnwys **meithrinfa, banc, llyfrgell, banc bwyd, canolfan chwaraeon/campfa, pwll nofio dan do**, ac ailagor yr **ysgol gynradd**. Cynigiwyd datblygu **chwaraeon dan do** a **gweithgareddau tywydd gwlyb** fel badminton neu ali sgitts mewn cyfleusterau presennol, ac adleisiwyd awgrym am **amgueddfa** dreftadaeth leol gan alwadau am fyrddau dehongli a gwell arwyddion ar gyfer tirnodau a threftadaeth leol.

Cynigiwyd **Cyfleusterau Cartrefi Modur** penodol fel ffordd o osgoi problemau gydag arosiadau anffurfiol dros nos, **Achubwyr Bywyd ac ardal nofio bwrpasol** ar y traeth, ynghyd â **gwell arwyddion ynghylch diogelwch ac ymddygiad cyfrifol**.

Cynigiwyd gwasanaeth **Bws mini/Galw'r Gyrrwr** lleol fel ffordd bosibl o wella trafndiaeth a hygyrchedd lleol.

*\*Cartrefi Lleol: Cododd cartrefi fforddiadwy i bobl leol nifer o weithiau. Archwilir hyn yn nes ymlaen yn y ddogfen hon ac yn yr adroddiad cysylltiedig gan Hwyluswyr Tai Gogledd-orllewin Cymru.*



## YR ANGEN: GWASANAETHAU A GWEITHGAREDDAU LLEOL

Er mwyn archwilio'r gweithgareddau a'r gwasanaethau yn y gymuned a'u defnydd, gwnaethom ofyn i'r ymatebwyr pa rai roeddent wedi cymryd rhan ynddynt a/neu elwa ohonynt yn ystod y 12 mis diwethaf cyn Cyfnod Clo Covid-19.

Roedd yn gwestiwn agored gan fod gormod i'w rhestru'n unigol ar ffurflen yr arolwg, a byddem wedi bod yn sicr o fethu rhai llai adnabyddus. Roedd diffiniad y bobl eu hunain o weithgareddau a gwasanaethau hefyd yn amrywio, felly nod yr adran ganlynol yw crynhoi'r ystod eang o weithgareddau a nodwyd a nodi elfennau allweddol.

Mae gweithgareddau a gwasanaethau cymunedol bron bob amser wedi'u cysylltu â'r cyfleusterau sydd ar gael, ac mae'r data'n tynnu sylw at hyn gyda llawer o'r gweithgareddau poblogaidd yn cael eu cynnal yn y cyfleusterau poblogaidd. Byddem wedi synnu pe na bai hyn yn wir, fodd bynnag, mae'n dal yn dda gweld bod y data'n ddibynadwy yn ôl y disgwyll!!

Mae'n ymddangos bod chwaraeon a gweithgareddau corfforol o bob math wrth wraidd bywyd cymunedol yn Aberdyfi. Mae hwylio, golff, rhwyfo, tennis, bowls, croce a phêl-droed yn codi dro ar ôl tro. Fel y mae dosbarthiadau ffitrwydd a dawn. Fel y soniwyd yn flaenorol, gall fod yn anodd dehongli pwy sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau go iawn, a'r rhai sy'n elwa o'r digwyddiadau a'r cyfleusterau cysylltiedig.

Un o'r gweithgareddau mwyaf poblogaidd oedd y sioeau, yr arddangosfeydd, ac yn enwedig y pantomeim yn Neuadd Aberdyfi. Mae'r clwb cinio cymunedol hefyd yn cael lle amlwg, a gynhelir hefyd yn y Neuadd. Nododd nifer o ymatebwyr ddigwyddiadau lleol fel yr Ŵyl Fwyd, Gŵyl Dyfi, ffeiriau crefft, sioe'r clwb garddio a Halen Haf/Summer Salt.

Nododd nifer llai ddigwyddiadau, sgysiau a digwyddiadau cymdeithasol yn benodol sy'n dod â phobl ynghyd. Nodwyd yn aml eu bod yn cael eu cynnal yn Neuadd Dyfi a'r Sefydliad Llenyddol, fodd bynnag, gellid disgwyl yn rhesymol bod

y rhain yn digwydd yn y cyfleusterau eraill hefyd ond nad ydynt wedi'u nodi'n benodol ac felly wedi'u cuddio yn y data. Soniwyd hefyd am yr ystafelloedd darllen cwpl o weithiau.

Nododd niferoedd tebyg yr eglwys, y capel ac addoli fel gweithgareddau rheolaidd. Soniwyd hefyd am y Gymdeithas/Clwb Celf sawl gwaith, ynghyd â gweithgareddau'n ymwneud â'r RNLI.

Cododd y gwasanaethau Trên a Bws ambell waith hefyd!

Nodwyd gweithgareddau a gwasanaethau eraill gan un neu ddau o bobl ac rydym wedi'u rhestru yma:

- Siop Swyddfa'r Post
- Fferyllfa
- Ymatebwyr Cyntaf Dyfi
- Rhoi Gwaed
- Cyngor Cymuned
- Cyrsiau Addysgol e.e. Cwrs Cyfrifiadur
- Gweithgareddau Gwirfoddol
- Grŵp Plant Bach
- Nofio mewn Grŵp
- Padlfyrddio
- Glanhau Traeth
- Merched Dyfi
- Olwyn Fewnol
- Clwb Glee
- Clwb Llyfrau
- Pêl-droed dros yr haf i blant
- Clwb Garddio

Yn aml, gall grwpiau llai gael eu hanwybyddu mewn arolygon fel hyn. Er enghraifft, rhai â niferoedd llai gan eu bod yn canolbwyntio ar un gweithgaredd penodol, demograffig penodol, a'r rhai heb weithgareddau cysylltiedig (e.e. Tŷ Clwb, gweithgareddau codi arian rheolaidd ac ati). Fodd bynnag, rhaid cydnabod, er eu bod yn brin o niferoedd, eu bod yn dal i ddarparu'r un buddion, gwasanaethau hanfodol, a chyfleoedd cymdeithasu i'w haelodau â'r gweithgareddau a'r clybiau mwy ac yn aml o fudd i'r rheini nad oes ganddynt ddiddordeb yng nghynnig y sefydliadau mwy.

Mae hefyd yn amlwg bod mwyafrif yr ymatebwyr wedi canolbwyntio ar y 'gweithgareddau' (chwaraeon, theatr, cymdeithasol ac ati) yn hytrach na'r

'gwasanaethau' e.e. gofal iechyd, trafniadaeth, gofal plant ac ati. Gallai hyn fod yn arwydd o ddiffyg galw, demograffig wedi'i fethu, neu'n rhywbeth arall. Yn anffodus, nid yw'r data'n rhoi'r ateb i ni ac nid ydym am geisio dyfalu ynghylch y peth. Efallai y bydd angen rhagor o ymchwil yma.

### GWASANAETHAU AMGYLCHEDDOL

Mae'n werth nodi yma, yn ogystal â gweithgareddau a gwasanaethau traddodiadol a ddarperir gan sefydliad neu unigolyn, nododd nifer sylweddol o ymatebwyr weithgareddau neu wasanaethau a ddarperir gan yr amgylchedd. Cerdded, beicio, rhedeg, mynediad i'r traeth a mannau gwyrdd agored ac ati. Mae'r rhain i gyd yn 'wasanaethau' a ystyrir yn gyffredin fel rhai buddiol i iechyd a lles ac maent hefyd yn ganolbwynt i Bolisi Amgylcheddol Llywodraeth Cymru.

### BETH ELLID EI WNEUD I WELLA GWEITHGAREDDAU A GWASANAETHAU CYFREDOL?

Y thema amlwg yma oedd bod angen **calendr canolog** o ddigwyddiadau, gweithgareddau a gwasanaethau lleol ac y dylid eu **hysbysebu'n helaeth** i'r preswylwyr lleol. Mae calendr gweithgareddau ar [www.aberdovey.org.uk](http://www.aberdovey.org.uk) ond mae'n amlwg nad yw llawer yn ymwybodol ohono. Arwydd arall o'r diffyg ymwybyddiaeth yw bod llawer o ymatebwyr yn awgrymu gweithgareddau neu wasanaethau 'newydd' posibl sydd eisoes yn bodoli!

Mae cryn dipyn o gyfeiriadau at **amseriad gweithgareddau**, gyda gweithgareddau yn ystod y dydd ddim yn hygyrch i oedolion sy'n gweithio [neu ieuencid oedran ysgol]. Anelwyd galwad am oriau agor hirach yn bennaf at fusnesau a llefydd bwyta, er gallai fod yn berthnasol i gyfleusterau cymunedol sy'n cynnig gwasanaethau hefyd. Cynigiodd rhai fwy o **ddigwyddiadau cymdeithasol**, **sgyrsiau a/neu gyrsiau hyfforddi gyda'r nos**, er gwerth addysgol a chymdeithasol.

Roedd cynyddu nifer y digwyddiadau cymunedol yn cael ei weld fel ffordd o ddarparu adloniant a gwella cydlyniant cymunedol. Soniodd nifer o ymatebwyr yn benodol eu bod yn colli digwyddiadau tebyg i Garnifal/Gorymdaith.

Codwyd yr angen am fwy o ddsbarthiadau ffitrwydd hefyd, felly efallai y gellid meddwl am hyn sydd ar goll o'r ddarpariaeth gyfredol neu a oes capasiti digonol, o ystyried bod ystod o weithgareddau o'r fath eisoes ar gael.

### GWASANAETHAU COLL

Gan adlewyrchu'r hyn a nodwyd o'r blaen, yr awgrym mwyaf poblogaidd yma oedd **Clwb Ieuencid neu Glwb Gweithgareddau i bobl ifanc**, yn enwedig pobl ifanc hŷn yn eu harddegau. Soniodd un unigolyn fod hyn wedi cael ei dreialu o'r blaen ond ei fod wedi methu oherwydd niferoedd annigonol, felly gallai hyn fod yn werth ailedrych arno. Fodd bynnag, byddem yn eich cyngori i ymgynghori â'r bobl ifanc eu hunain ar y mater hwn, gan fod diffyg ymatebion gan rai dan 25 oed yn golygu mai'r cenedlaethau hŷn (er yn rhieni o bosibl) sy'n dweud wrthym yma beth sydd ei angen ar y bobl ifanc!

Amlygir diffyg **gwasanaethau gofal iechyd** lleol (meddygfa, deintydd ac ati) eto a dyma'r ail thema fwyaf poblogaidd yn yr adran hon. **Cyflwynwyd y syniad o Fws Mini Cymunedol** i helpu'r rhai nad oeddent yn gallu cael gafael ar wasanaethau cyfredol, neu i gyrraedd y rhai y tu allan i'r pentref.

Cynigiodd llawer ryw fath o **Ganolfan Gymdeithasol/Caffi Cymunedol** fel ffordd o alluogi pobl i gymdeithasu, brwydro yn erbyn unigrwydd ac arwahanrwydd, yn enwedig ymhlith preswylwyr hŷn.

Nododd ychydig o ymatebwyr y byddent yn hoffi gweld grŵp cerdded lleol yn cael ei sefydlu, gydag eraill â diddordeb mewn teithiau cerdded â thema (natur, treftadaeth, hanes ac ati) ar gyfer pobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Arall	
Gweithgareddau awyr agored wedi'i dargedu ar gyfer pobl leol	Llogi bad dŵr bach
Clybiau Plant Bach	Clwb Bridge
Marchnad Leol	Gwasanaethau Cyfeillio
Siop Trwsio	Siop Cyfnewid
Clwb Garddio	Llyfrgell Deithiol
Grwpiau hunangymorth	Dosbarthiadau Cymraeg

## BETH SY'N EITHRIO POBL: RHWYSTRAU I GYFRANOGI

Gofynnwyd a oedd rhesymau pam nad oedd pobl yn defnyddio cyfleusterau lleol neu'n cyrchu gweithgareddau a gwasanaethau lleol, i archwilio a oedd unrhyw rwystrau mawr i gyfranogi. Os ydym yn eithrio 'Cyfyngiadau Covid,' a 'byw y tu allan i'r ardal,' yr ateb mwyaf cyffredin oedd **diffyg diddordeb** yn y gweithgareddau neu'r digwyddiadau a gynigwyd (anghrefyddol, dim diddordeb mewn pêl-droed ac ati).

Nododd llawer eu bod yn '**rhy brysur ac nad oedd ganddynt amser.**' Roedd rhai yn nodi pwysau gwaith, tra nododd eraill fod oriau gwaith yn ei gwneud yn amhosibl iddynt fynychu digwyddiadau yn ystod y dydd.

**Diffyg gwybodaeth / hysbysebu** oedd y rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd ynglŷn â gweithgareddau a gwasanaethau, a allai fod yn rhywbeth y gellid ei unioni'n hawdd, efallai trwy hysbysfwrdd canolog (ar-lein efallai) neu gylchlythyr.

**Materion iechyd, oedran a symudedd gwael** oedd y thema fwyaf cyffredin nesaf. Gan gynnwys sylwadau gan unigolion sy'n gaeth i gadair olwyn a'r rhai trwm eu clyw. Adleisir y diffyg hygyrchedd hwn gan gwpl o ymatebwyr a soniodd am **ddiffyg trafndiaeth**.

Roedd **diffyg parcio digonol** yn rhwystr arall a nodwyd a oedd yn cadw pobl draw, yn enwedig yn ystod y tymor prysur, lle mae "*twristiaid ym mhob twll a chornel*" yn ôl rhai. Cafwyd cwyn nad oedd unrhyw fannau parcio ar gael yn ystod cyfnodau prysur, tra bod diffyg parcio i bobl anabl yn thema arall.

Roedd rhai sylwadau yn benodol i gyfleusterau unigol, e.e. nodwyd yr angen i fod (neu'n ansicr a oedd angen i chi fod) yn aelod o'r Clwb Hwyllo i ddefnyddio'r cyfleusterau, neu ddiffyg lle (neu restr aros) ar gyfer rhandir. Felly, roedd **aelodaeth a ffioedd** yn rhwystr i rai, tra bod **detholusrwydd canfyddedig** rhai clybiau yn atal llawer o ddefnyddwyr achlysurol.


Yn olaf, cafwyd sylwadau yn cyfeirio at 'gyfleusterau **blinedig yr olwg**' a allai wneud gyda *gwaith uwchraddio a rhywfaint o foderneiddio*.

## EFFAITH COVID

O ystyried natur y 18 mis diwethaf, gwnaethom ofyn a oedd yr ymatebwyr yn credu bod pandemig Covid-19 wedi newid anghenion y gymuned. Fel y gallwch weld, nid oedd consensws clir ar hyn, ond cawsom nifer o safbwyntiau ar anghenion a allai newid:

- Mae wedi tynnu sylw at yr angen am wasanaethau iechyd a chymdeithasol lleol yn ein cymuned, a'r diffyg presennol. Mae hefyd wedi newid natur y gwasanaethau hyn, gydag unigolion mwy agored i niwed angen cefnogaeth a monitro gartref.
- Mae llawer o unigolion bellach yn wylidwrs o weithgareddau grŵp a bydd angen eu perswadio i ail-ymuno â gweithgareddau cymunedol ac i ddarparu'r y gweithgareddau roi sicrwydd trwy drefniadau diogelwch llym, cadw pellter cymdeithasol a hylendid. Angen posibl am fwy o ddsbarthiadau llai.
- Mae materion ynysu ac unigrwydd yn ddau fater sy'n effeithio ar iechyd meddwl a lles sydd wedi'u hamlygu a'u dwysáu dros y 18 mis diwethaf. "*Mae angen cymuned ar bobl.*"
- Mae wedi dod â'r gorau allan mewn pobl, gan ddod ynghyd i gefnogi cymdogion a chydweithwyr i sefydlu perthnasoedd, cyfeillgarwch a chymunedau newydd.
- Bydd mwy o ylliau cartref a mewnlifiad canfyddedig o breswylwyr newydd (iau) yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau lleol, ond gallai hefyd ddod â gwaed a brwdfrydedd newydd i'r gymuned.
- Gallai newid arferion fod yn ergyd i'r economi leol wrth i fwy o bobl gymdeithasu gartref a siopa ar-lein. I'r gwrthwyneb, mae eraill yn credu bod mwy o bobl yn siopa'n lleol ers y Cyfnod Clo.

Anghenion Cymunedol wedi newid yn sgil Covid-19?




■ Do ■ Naddo ■ Ansicr

Arall	
Tynnu'r sylw at yr angen am lefydd i gymdeithasu	Mae gwirfoddolwyr cymunedol yn hanfodol
Band eang: Hanfodol i weithio gartref	Gwell ymwybyddiaeth o anghenion unigol
Dibynnu fwy ar ddanfoniadau i'r cartref	Cyfathrebu yn hanfodol

## YR ECONOMI A SWYDDI

Ffe wnaethom holi ymatebwyr am eu barn ar y datganiadau canlynol ynghylch cyflwr yr economi a chyflogaeth yn Aberdyfi:



■ Anghytuno'n Gryf / Strongly Disagree  
 ■ Anghytuno / Disagree  
 ■ Niwtral / Neutral  
 ■ Cytuno / Agree  
 ■ Cytuno'n Gryf / Strongly Agree  
 ■ Ddim yn Gwybod / Don't Know

Mae canfyddiad enfawr bod diffyg cyfleoedd cyflogaeth parhaol yn Aberdyfi (67%). Mae hyn yn cyd-fynd â'r canfyddiadau yn yr adran gynharach nad oedd Aberdyfi yn lle da i fyw i'r rhai sy'n chwilio am waith neu'n teithio i'r gwaith.

Mae hefyd yn cyd-fynd â'r canfyddiad mai Twristiaeth yw'r prif sbardun economaidd yn y pentref, sy'n gysylltiedig â swyddi tymhorol sy'n talu'n isel.





Fel y gwelwch, mae barn gref y byddai unedau busnes / gofod swyddfa ychwanegol (61%), cyfleoedd hyfforddi (62%), ac amrywio cyfleoedd cyflogaeth (74%) yn fuddiol i'r ardal.

Roedd y mwyafrif llethol (90%) yn gweld twristiaeth fel y prif sbardun economaidd, er bod nifer o sylwadau bod hyn yn niweidiol i sectorau eraill a'r gymuned ehangach.

## POBL IFANC

Roedd adran yn yr arolwg wedi'i hanelu at bobl ifanc o dan 25 oed. Fodd bynnag, yn anffodus dim ond tri unigolyn o dan 25 oed a ymatebodd i'r arolwg, felly nid yw'n bosibl dod i unrhyw gasgliadau o'r canlyniadau hyn.

Atebodd nifer o bobl y cwestiynau a anelwyd at rai dan 25 oed (er na ddylai hyn fod wedi bod yn bosibl, credwn y gallai fod gwall ar y platfform arolwg ar-lein). Rydym yn gwerthfawrogi y gallai'r cofnodion hyn fod wedi cael eu cyfrannu gan rieni ar ran eu plant, felly rydym yn cynnwys crynodeb byr yma rhag ofn y gall lwyio datblygiad unrhyw astudiaeth yn y dyfodol.



## YR AMGYLCHEDD

Gofynnwyd i ymatebwyr am eu barn ar y datganiadau canlynol (gweler gyferbyn), i gasglu gwybodaeth am ganfyddiadau pobl o'r amgylchedd naturiol a'i ddylanwad ar y gymuned leol:

Mae'r mwyafrif llethol yn canfod bod yr amgylchedd naturiol a'r dirwedd yn gwneud Aberdyfi yn lle gwell i fyw ynddo (93%), a'i fod yn cyfrannu at wella ein hiechyd a'n lles fel cymuned (94%).


Mae yna gred gref hefyd ei fod o fudd i'n heconomi trwy ddenu ymwelwyr a buddsoddiad (93%). Fodd bynnag, ochr arall y geiniog yw bod y mwyafrif hefyd yn credu y gall y mewnlifiad hwn o ymwelwyr weithiau gael effaith negyddol ar yr amgylchedd sy'n eu denu yn y lle cyntaf (65%), er bod lleiafrif sylweddol yn anghytuno.

Mae consensws ei bod yn bwysig ein bod yn gweithredu i warchod y dirwedd arbennig hon a'r bywyd gwylt os yw harbwrs (95%), a bod pobl yn llawer mwy tebygol o'i barchu a'i warchod os ydynt yn deall yn llawn y buddion y mae'n eu darparu i ni (82%). Roedd consensws hefyd ynghylch y cynnig ei bod yn bwysig addysgu ymwelwyr a phobl leol fel ei gilydd am Fiosffer Dyfi a'r amgylchedd ehangach (95%).

Yn gyffredinol, nid oedd yr ymatebwyr mor sicr eu bod yn deall Biosffer Dyfi yn llawn a'r buddion y mae'n ei ddarparu i'r gymuned (63%), ac roedd mwy o ymatebion 'ddim yn gwybod' yma nag ar gyfer unrhyw un o'r datganiadau eraill. Yn olaf, roedd cefnogaeth eang i archwilio'r potensial ar gyfer prosiect ynni cymunedol cynaliadwy yn Aberdyfi (72%), gyda lleiafrif bach (11%) yn erbyn y syniad.

Dylid nodi bod yr ymateb cadarnhaol llethol i'r gwerth a'r angen i warchod yr amgylchedd naturiol yn yr adran hon yn groes i'r canfyddiad blaenorol mai 'Yr Amgylchedd' oedd yr isaf o flaenoriaethau pobl. Mae'n tynnu sylw at y ffaith, er ei fod yn cael ei werthfawrogi'n fawr, ei fod yn aml yn cael ei anwybyddu wrth gael

ei ystyried ochr yn ochr â materion mwy dybryd 'o ddydd i ddydd' fel gwasanaethau, cyfleusterau, tai a chyflogaeth.



■ Anghytuno'n Gryf / Strongly Disagree ■ Anghytuno / Disagree ■ Niwtral / Neutral ■ Cytuno / Agree  
■ Cytuno'n Gryf / Strongly Agree ■ Ddim yn Gwybod / Don't Know

## MATERION CANFYDDEDIG

Y mater llethol a nododd ymatebwyr oedd **sbwriel a thaflu sbwriel**, yn enwedig yn ystod y tymor twristiaeth prysur. Roedd hyn yn amrywio o finiau'n gorlifo ar y stryd fawr a oedd yn gysylltiedig â diffyg biniau a chasgliadau anaml, i sbwriel yn cael ei adael ar y traeth sy'n niweidio'r amgylchedd ac yn denu gwylanod.

Gwelwyd bod **diffyg cyfleusterau ailgylchu lleol** yn cyfrannu at **dipio anghyfreithlon** a thaflu sbwriel. Mae **baw cŵn** yn fater arall a nodwyd.

**Sgiau jet a chychod modur eraill** oedd yr ail fater mwyaf cyffredin a nodwyd, yn gysylltiedig â **llygredd sŵn** (mater ar wahân ynddo'i hun) a hefyd aflonyddu ar fywyd gwyllt.

Roedd **gorlenwi** a achoswyd gan y mewnlifiad o ymwelwyr yn cael ei ystyried yn ffynhonnell llawer o'r materion a nodwyd, yn enwedig **cyynydd mewn traffig** trwy'r pentref (ac allyriadau cysylltiedig), a **pharcio yn gorlifo i fannau gwyrdd naturiol**. Yn thema sy'n codi dro ar ôl tro mewn llawer o gymunedau, roedd llawer o bobl yn gweld **Baw Cŵn** yn fater difrifol yn Aberdyfi.

Mae **llygredd morol** (gan gynnwys enghreifftiau o eiddo a enwir), ynghlwm wrth bryderon cysylltiedig **'dŵr ffo' o dir fferm** yn cael effaith andwyol ar afonydd a'r môr. Nodwyd **pecynnu/llygredd plastig** hefyd yn benodol gan nifer o ymatebwyr, gan sôn yn benodol am gynhyrchion traeth (bwcedi, rhawiau wedi'u taflu ac ati). Nodwyd **Newid Hinsawdd** yn gyffredinol fel bygythiad, gan gynnwys erydiad twyni tywod a'r arfordir (hefyd yn gysylltiedig ag ymwelwyr), a chodiad yn lefel y môr. Mae **datblygiad heb ei wirio** yn cael ei ystyried yn niweidiol i fioamrywiaeth a manau gwyrdd.

Arall	
Colli Bioamrywiaeth a thorri coed	Stympiau sigarennau
Gwastraff carafanau/cartrefi modur	Gwersylla gwyllt a thanau
Diffyg ewyllys gwleidyddol i newid	Diffyg coed
Fandaliaeth	Gor-drin manau gwyrdd

Cafwyd sylwadau hefyd bod atal carthu sianeli wedi gwneud mwy o ddrwg nag o les, a bod rhywfaint o ddeddfwriaeth amgylcheddol yn wrthgynhyrchiol.

## ATEBION A GYNIGIR

Mae'r ateb unigol mwyaf poblogaidd i rai o'r materion hyn yn mynd i'r afael â nifer ohonynt, ac **Addysg** yw hynny. Boed hynny ar ffurf taflenni, posteri, arwyddion, neu ddigwyddiadau a gweithgareddau addysg, addysgu pobl ar gyflwr yr amgylchedd naturiol, y niwed sy'n cael ei wneud, pam mae angen ei warchod, a'r buddion y mae'n eu darparu i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.

**Mwy o finiau (gan gynnwys biniau ailgylchu)**, a chasgliadau amlach yw'r cynnig mwyaf poblogaidd nesaf wedi'i anelu at fater penodol. Ymhelaethir ar hyn gan eraill sy'n gweld **cyfleuster ailgylchu cymunedol** yn allweddol i leihau pobl yn taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon (yn ogystal â lleihau gwastraff cartref sy'n mynd i safleoedd tirlenwi yn ôl pob tebyg).

Mae nifer tebyg o ymatebwyr hefyd yn cynnig **cyfyngu ar sgiau jet a chychod modur**, o ran cyflymder a lleoliad, fel ateb i lygredd sŵn ac aflonyddu ar gynefinoedd (gan fynd i'r afael â phryderon diogelwch hefyd).

Mae **gorfodi** trwy erlyn a/neu wardeiniaid yn cael ei ystyried fel yr ateb i faterion taflu sbwriel a pharcio ymhlith eraill. Mae awydd hefyd i gael mwy o **fentrau cymunedol** fel sesiynau casglu sbwriel i fynd i'r afael â materion.


Mae rhai atebion penodol i faterion lleol yn ymddangos sawl gwaith. Mae **gwahardd cranca (neu werthu a defnyddio llinellau neilon yn lleol)** yn cael ei ystyried yn ffordd i ddatrys llygredd plastig lleol yn yr amgylchedd morol; **annog busnesau i leihau'r defnydd o blastig, a defnyddio deunydd pacio/cynwysyddion ailgylchadwy**, wrth **ddarparu cyfleusterau ailgylchu ar eu safle**. Mae **plannu coed/creu cynefinoedd** hefyd yn ymddangos dro ar ôl tro.

Awgrymir cyfleuster **Parcio a Theithio** fel ffordd i leihau problemau traffig a pharcio; **Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydanol, terfyn cyflymder 20mya**, a

phrosiectau **Ynni Gwyrdd** i hwyluso gostyngiad mewn allyriadau. Cynigir **siop atgyweirio/cyfnewid, newid arferion ffermio, a chyfyngu ar nifer yr ymwelwyr**. Yn olaf, cynigir datblygu **Tai Cynaliadwy**. Mae galw am **ymchwil arbenigol** fanylach i'r materion (**cydweithredu â CAT** o bosibl) a **sefydlu grŵp lleol** i arwain ar ddiogelu'r amgylchedd.

## TAI

Gofynnwyd i ymatebwyr am eu barn ar y canlynol i gasglu gwybodaeth am ganfyddiadau pobl o'r sector tai yn Aberdyfi a'i ddylanwad ar y gymuned leol:



■ Anghytuno'n Gryf / Strongly Disagree
 ■ Anghytuno / Disagree
 ■ Niwtral / Neutral
 ■ Cytuno / Agree
 ■ Cytuno'n Gryf / Strongly Agree

Fel y gallwch weld, nid yw'r mwyafrif llethol (75%) o'r ymatebwyr yn credu bod prisiau tai yn Aberdyfi yn fforddiadwy i bobl leol.

Nid yw bron i hanner (49.5%) yn credu bod prisiau rhent yn fforddiadwy i bobl leol chwaith. Fodd bynnag, mae yna ran sylweddol o'r ymatebwyr (37%) nad oes ganddyn nhw farn y naill ffordd neu'r llall. Rydym yn amau bod hyn oherwydd oni bai eich bod yn byw yn/yn chwilio am lety rhent yna mae'n annhebygol y byddwch yn ymwybodol o'r gyfradd farchnad gyfredol, nad ydynt mor weladwy â phrisiau eiddo a werthir, y gellir eu canfod ar-lein yn hawdd.

Mae p'un a yw ail gartrefi yn cael effaith negyddol ar y gymuned yn fater sy'n rhannu'r ymatebwyr. Mae 43% yn credu ei fod yn cael effaith negyddol, ac mae 35% yn anghytuno. Adlewyrchir hyn gan adrannau eraill lle ystyrir bod twristiaeth ac ymwelwyr yn hanfodol i'r economi leol, ac ar yr un pryd yn rhoi pwysau sylweddol ar wasanaethau lleol a'r amgylchedd.

Er gwaethaf y gwahanol safbwyntiau hyn, mae cefnogaeth glir ac eang i ddatblygu a gweithredu polisiâu cynllunio sy'n darparu amodau i ffafrio preswylwyr lleol (63% o blaid, 21% yn erbyn), sy'n nodi prif breswylfa (57% o blaid, 23% yn erbyn) ac i gyflenwi tai fforddiadwy (69% o blaid, 17% yn erbyn).

## PARTNERIAETH HWYLUSWYR TAI GWLEDIG GOGLEDD-ORLLEWIN CYMRU: ADRODDIAD AROLWG ANGHENION TAI

Llywiodd ail hanner yr arolwg ar-lein, ynghyd â ffynonellau eraill, *'Adroddiad Arolwg Anghenion Tai'* a gynhyrchwyd gan 'Hwyluswyr Tai Gwledig Gogledd-orllewin Cymru.' Rydym wedi cynnwys adran 'Casgliadau a Chanfyddiadau' yr adroddiad hwn yma i lywio'r darlennydd, gan fod ein casgliadau a'n hargymhellion ein hunain yn cael eu dylanwadu gan eu canfyddiadau.

Awgrymwn yn gryf fod yr *'Adroddiad Arolwg Anghenion Tai'* yn cael ei ddarllen ochr yn ochr â'n hadroddiad ni er mwyn rhoi darlun cynhwysfawr a manwl i'r darlennydd o'r sefyllfa bresennol yn Aberdyfi.

## CRYNODEB A CHASGLIADAU

Wrth ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael o'r gofrestr tai cymdeithasol a fforddiadwy, gwybodaeth am y farchnad dai a fforddiadwyedd tai, gwybodaeth am eiddo gwag ac ail gartrefi, yn ogystal â'n harolwg ar-lein, gallwn ddod i'r casgliad canlynol ynghylch yr angen tai lleol yn Aberdyfi.

Mae 62.3% o aelwydydd yn cael eu prisio allan o'r farchnad dai at ei gilydd. Ar gyfer yr aelwydydd hynny sydd ag incwm o fewn y chwarterl isaf, mae'r ganran hyd yn oed yn uwch. Gydag incwm canolrifol y chwarterl isaf yn yr ardal yn £18,901 a'r incwm sy'n ofynnol i fforddio eiddo am bris lefel mynediad yn £39,571, nid yw prynu cartref ar y farchnad agored yn opsiwn i lawer.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw eiddo ar gael i'w rentu'n breifat yn Aberdyfi.

Mae nifer uchel iawn o ail gartrefi ac eiddo sydd wedi'u cofrestru fel unedau hunanarlwyo yn yr ardal. Mae nifer y cartrefi gwag yn uchel hefyd. Mae 54% o'r stoc dai yn yr ardal naill ai'n ail gartrefi, yn dai gwyliau ar osod neu'n eiddo gwag.

Mae 50 o unedau cymdeithasol yn yr ardal, gydag amrywiaeth o opsiynau o ran maint a math yr uned. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw unedau sy'n anodd eu gosod, ond mae swyddogion tai cymdeithasol wedi nodi y gall fod yn anodd gosod rhai unedau sydd wedi'u lleoli ar loriau cyntaf neu fryniau serth ac wedi'u dynodi ar gyfer yr henoed.

Mae 113 ar y rhestr aros am dai cymdeithasol yn Aberdyfi. Mae'r galw uchaf am unedau dwy ystafell wely, ond mae galw sylweddol am unedau un ystafell wely a thair ystafell wely. Mae'r galw yn weddol gyfartal am unedau un a dwy ystafell wely. Mae mwyafrif y rhai sydd angen uned dwy ystafell wely yn chwilio am dŷ neu fyngalo. I'r rhai sydd angen eiddo tair ystafell wely, tŷ oedd y dewis mwyaf poblogaidd.

Mae yna rai sydd wedi cofrestru ar y gofrestr tai cymdeithasol sydd â chysylltiad lleol o bum mlynedd neu fwy, ac sydd angen uned un, dwy neu dair ystafell wely.

Mae'n werth nodi mai nifer eithaf isel o'r rhai ar y gofrestr sydd â chysylltiad lleol o bum mlynedd neu fwy â'r ardal.

Mae pedwar wedi ymateb i'r arolwg ar-lein gan nodi y byddent yn ystyried rhentu tŷ cymdeithasol ond nid ydynt wedi'u cofrestru ar y gofrestr tai cymdeithasol ar gyfer yr ardal (byddai'n ofynnol gwirio a yw'r rhai a ymatebodd yn gymwys i gael eu cynnwys ar y gofrestr).

Mae'n werth nodi y gallai'r rhestr aros am dai cymdeithasol gynyddu yn ystod yr ychydig fisoedd / blynnyddoedd nesaf oherwydd effaith economaidd Covid-19 ar aelwydydd yn yr ardal.

Ar hyn o bryd mae 14 wedi cofrestru gyda Tai Teg ar gyfer cartref fforddiadwy yn Aberdyfi. Mae deg o'r rhai sydd wedi'u cofrestru yn dymuno prynu cartref, mae tri eisiau rhentu ac mae un yn edrych i brynu neu rentu. Mae dau wedi dewis Aberdyfi fel eu lleoliad dewis cyntaf, mae naw wedi nodi Aberdyfi fel eu hail ddewis ac mae tri wedi nodi Aberdyfi fel eu trydydd dewis. Mae saith o'r rhai sydd wedi'u cofrestru angen tŷ dwy ystafell wely ac mae angen tŷ tair ystafell wely ar chwech ohonynt. Mae un cais lle nad yw'r ymgeisydd wedi nodi faint o ystafelloedd gwely sydd eu hangen arnynt. Nododd un ymateb i'r arolwg ar-lein y byddent yn ystyried prynu eiddo yn rhannol, a nododd saith y byddent yn ystyried prynu eiddo rhatach gyda chyfyngiadau ail-werthu. Dau yn unig o'r rhain sydd wedi cofrestru gyda Tai Teg (byddai angen ei gadarnhau a yw'r gweddill yn gymwys i gael eu hychwanegu at y gofrestr).

Yn ein harolwg ar-lein a gynhaliwyd yn ystod Gorffennaf ac Awst 2021, tynnwyd sylw at y ffaith bod angen tai ar 56 o aelwydydd. Wrth ddadansoddi incwm y rhai a ymatebodd (dylid nodi mai dim ond 40 o'r rhai a ymatebodd a atebodd y cwestiwn ynghylch incwm cartref) a chyda phris tŷ cyfartalog cyfredol yn yr ardal yn £365,010, gallwn ystyried bod y mwyafrif o'r rhain (os nad pob un) ag angen am gartref fforddiadwy. Dylid nodi mai dim ond dau o'r rhain sydd wedi cofrestru gyda Tai Teg a thri sydd wedi cofrestru ar gyfer tai cymdeithasol.



Mae gan oddeutu hanner y rhai a nododd fod angen tai arnynt ac a atebodd y cwestiwn ynghylch incwm, incwm cartref o £30,000 neu lai'r flwyddyn. Mae'n bwysig ystyried hyn wrth archwilio atebion ar gyfer yr angen lleol.

Fel rhan o'r ymatebion i'n harolwg, roedd y diddordeb mwyaf mewn tai tair ystafell wely, fodd bynnag, gyda nifer fawr hefyd â diddordeb mewn tai dwy ystafell wely a byngalos dwy ystafell wely.

Ymatebodd saith gan nodi eu bod angen eiddo ar y llawr gwaelod, roedd angen tai â chymorth ar un gyda gwasanaeth gofal ychwanegol, roedd angen tai â chymorth ar ddau heb unrhyw wasanaethau gofal ychwanegol, roedd angen gofal cartref ar un ac roedd angen tŷ wedi'i addasu ar gyfer anghenion arbennig ar gyfer un.

Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebion eisiau prynu ar y farchnad agored, ond byddai rhai hefyd yn ystyried rhentu'n breifat, rhentu'n gymdeithasol, neu brynu eiddo rhatach gyda chyfyngiad ail-werthu. Nododd 22 o'r ymatebion y byddent yn ystyried hunan-adeiladu a byddai 23 yn ystyried adnewyddu eiddo gwag pe bai eiddo priodol ar gael.

Mae cysylltiad lleol y rhai a ymatebodd a oedd ag angen tai yn gryf gyda 78.6% â chysylltiad o bum mlynedd neu fwy â'r ardal.

Amlygwyd yn yr arolwg bod cefnogaeth i ddatblygiad tai ar gyfer angen lleol gyda 63.7% yn cefnogi a 20.9% yn nodi na fyddent yn cefnogi datblygiad o'r math hwn. Rhoddwyd amryw o resymau dros gefnogi a gwrthwynebu unrhyw ddatblygiad.

Tynnwyd sylw at y themâu canlynol pan ofynnwyd i'r rhai a ymatebodd nodi eu barn ar y sefyllfa dai yn yr ardal:

- Mae'r sefyllfa dai yn drychinebus ac yn gwaethygu.
- Mae gormod o ail gartrefi a llety gwyliau ar osod.
- Mae prisiau tai yn rhy uchel i bobl leol.

- Mae'r sefyllfa dai yn cael effaith negyddol ar y gymuned, yr economi a gwasanaethau lleol.
- Mae tirwedd Aberdyfi yn ei gwneud hi'n anodd datblygu mwy o dai.
- Mae rhywfaint o dai fforddiadwy mewn trefi ac ardaloedd cyfagos.
- Mae angen swyddi yn ogystal â thai ar gyfer pobl leol yn yr ardal.

Y themâu uchod oedd y rhai a soniwyd amdanynt fwyaf ond dylid nodi bod rhai ymatebion yn teimlo bod y sefyllfa dai yn Aberdyfi yn dderbyniol.

Yn ogystal â chefnogi unrhyw ddatblygiad posibl o dai fforddiadwy i bobl leol, mae galw hefyd am:

- Fesurau i reoli'r sefyllfa ail gartrefi a llety gwyliau ar osod - er enghraifft system y Dreth Gyngor neu'r system Gynllunio.
- Cymorth i bobl leol brynu neu adnewyddu eiddo.
- Hwyluso cyfathrebu rhwng gwerthwyr lleol a phrynwyr cyn i dŷ gael ei werthu ar y farchnad agored.
- Hwyluso ffyrdd y gellir defnyddio eiddo gwag i gynorthwyo'r angen tai lleol.
- Datblygu asiantaeth a all brynu, gwerthu a rhentu tai i bobl leol.
- Datblygu'r economi leol i gynyddu swyddi a chyflogau yn ogystal ag annog datblygiadau technolegol a fyddai'n caniatáu i bobl weithio mewn swyddi â chyflogau uwch o'u cartrefi.
- Gwella'r drafndiaeth gyhoeddus, a'r cysylltiadau trafndiaeth er mwyn datblygu hygyrchedd i leoliadau swyddi i bobl sydd eisiau byw yn Aberdyfi ond sy'n gweithio yn rhywle arall.

Nododd 48 o'r ymatebion fod ganddynt ddiddordeb mewn bod yn aelod o grŵp a fyddai'n ymateb ac yn cynorthwyo gyda'r sefyllfa dai leol. Rydym yn croesawu unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r wybodaeth, y casgliad a'r argymhelliad a wnaed yn yr adroddiad hwn.

## CAMAU POSIBL NESAF: SUT GALLWCH CHI WEITHREDU AR Y CANFYDDIADAU HYN

Dylid defnyddio canfyddiadau a chasgliadau'r adroddiad hwn fel y sylfaen dystiolaeth ar gyfer datblygiad pellach, ac i ysgogi sgwrs a thrafodaethau pellach ynghylch rhai o'r themâu allweddol a godwyd yn y gwaith hwn.

Yma rydym wedi amlinellu nifer o gamau posibl y gallech eu cymryd, yn y tymor byr a'r tymor hir, i ddatblygu'r canfyddiadau hyn ar y cyd ochr yn ochr â phreswylwyr lleol a rhanddeiliaid allweddol, gan nodi a rhoi mesurau ar waith a fydd yn gwella'r gymuned i bawb:

**Ymgysylltu â Phobl Ifanc:** Roedd y diffyg ymgysylltu â phobl ifanc yn un o wendidau mawr yr arolwg hwn. Mae'n bosibl bod hyn oherwydd ei fod wedi'i dargedu at berchnogion tai / tenantiaid, ac nad oedd y dull cyfryngau cymdeithasol a rhwydweithio wedi gallu eu cyrraedd. Bydd nodi eu canfyddiadau a'u hanghenion gwirioneddol yn hanfodol i ddatblygu ymyriadau sy'n gwella'r Gymuned, ynghyd â thystiolaeth o unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol a cheisiadau cyllido cysylltiedig.

**Recriwtio Cefnogaeth Ychwanegol:** Nododd cyfanswm o 48 o ymatebwyr (dros un rhan o bump) y byddai ganddynt ddi-ddordeb mewn ymwneud â grŵp i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn. Dyma gapasiti ychwanegol sylweddol a chyfoeth posibl o sgiliau a phrofiad ar gael i chi. Dylid ymgysylltu â'r rhai sy'n hapus i gael unigolion yn cysylltu â nhw ac sydd wedi darparu manylion cyswllt yn fuan, i recriwtio cefnogaeth i'ch ymdrechion.

**Ymgysylltu a Chydweithio â Rhanddeiliaid Allweddol:** Mae'n hanfodol eich bod yn cynnal yr ymgysylltiad â rhanddeiliaid strategol allweddol fel Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri. Mae ganddynt y gallu a'r dylanwad i gefnogi'ch ymdrechion, a bydd y canfyddiadau hyn yn cefnogi eu gwaith eu hunain wrth adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Ni all ond helpu eich ymdrechion i gadw mewn cysylltiad â nhw a rhoi gwybodaeth iddynt, ac i fanteisio ar eu cyngor a'u harbenigedd.

**Ymgysylltu â'r Gymuned:** Yn dibynnu ar ystyriaethau ymarferol (a rheoliadau Covid-19), bydd cyfarfod cyhoeddus neu sesiwn galw heibio i drafod y canfyddiadau hyn yn helpu i ennyn diddordeb y gymuned, mireinio'r cynigion cychwynol, a datblygu ymdeimlad o berchnogaeth dros y gwaith. Mae'r broses yn aml mor bwysig â'r weithred, gan eich bod chi angen ennill cefnogaeth a chyfreithlondeb ar gyfer unrhyw ddatblygiad, a sicrhau bod ganddo fuddion eang. Mae'r cyfryngau cymdeithasol, grwpiau trafod (e.e. WhatsApp), a phapurau lleol yn rhai o'r dulliau y gallwch eu defnyddio.

**Datblygu Prosiectau Unigol:** Efallai y byddwch chi'n nodi rhai prosiectau neu gamau ac yn penderfynu eu dilyn yn unigol. Gallai hyn fod trwy grŵp canolog, neu gallai gwahanol sefydliadau ddefnyddio'r adroddiadau fel tystiolaeth i'w prosiectau eu hunain.

**Datblygu Cynllun Cymunedol Cynhwysfawr:** Y dewis arall yw datblygu'r syniadau a'r cynigion cychwynol hyn yn Gynllun Lle Cymuned mwy cynhwysfawr. Byddai hon yn ymdrech gynhwysol a chydweithredol rhwng y gymuned a rhanddeiliaid allweddol. Byddai'n nodi'r achos strategol dros newid ac yn nodi cyfres o gamau a phrosiectau, ochr yn ochr â datblygu/newid polisi lleol/rhanbarthol, mewn Cynllun Gweithredu cynhwysfawr a chydlynol ar gyfer y 5-10 mlynedd nesaf.

## CASGLIAD

Roedd yr ymarfer hwn i fod yn gam cyntaf wrth sefydlu anghenion y gymuned yn Aberdyfi, ac mae wedi datgelu ystod amrywiol o gamau y mae ymatebwyr yr arolwg hwn yn credu a fyddai o fudd i'r rhai sy'n byw yma a'r rhai sy'n ymweld.

Er gwaethaf y lleoliad delfrydol, mae'n amlwg bod rhai materion arwyddocaol yn wynebu'r gymuned. Mae rhai o'r rhain yn bryderon o ddydd i ddydd y gellid mynd i'r afael â nhw'n lleol gydag adnoddau a gallu ychwanegol. Mae eraill yn faterion systematig sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn ac mae angen newid polisi a dull ar lefel ranbarthol neu genedlaethol hyd yn oed i sicrhau'r newid a ddymunir. O dai i'r amgylchedd, bydd gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau a phartneriaid perthnasol yn allweddol. Ond ar ôl cymryd y cam cyntaf hwn, mae gan Aberdyfi'r potensial i arddangos y newid cadarnhaol gwirioneddol y gellir ei gael pan fydd cymunedau lleol yn gweithredu.